# BWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU DYDD GWENER, 20 MEDI 2019

Yn bresennol:

Aelodau â Phleidlais – Y Cynghorwyr:- Hugh Evans (Cyngor Sir Ddinbych), Llinos Medi Huws (Cyngor Sir Ynys Môn), Mark Pritchard (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam), Chris Bithell (Cyngor Sir y Fflint), Sam Rowlands (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy) a Dyfrig L.Siencyn (Cyngor Gwynedd).

Ymgynghorwyr – Dafydd Evans (Grŵp Llandrillo Menai), Maria Hinfelaar (Prifysgol Glyndŵr) ac Ashley Rogers (Cyngor Busnes Gogledd Cymru a Merswy Dyfrdwy).

Prif Swyddogion – Colin Everett (Cyngor Sir y Fflint) a Dilwyn Williams (Cyngor Gwynedd).

Swyddogion yn bresennol – Iwan Evans (Swyddog Monitro) ac Eurig Williams (Rheolwr Gwasanaethau Ymgynghorol Adnoddau Dynol).

**1. YMDDIHEURIADAU**

Ian Roberts (Cyngor Sir y Fflint), Yr Athro Iwan Davies (Prifysgol Bangor), Askar Sheibani (Bwrdd Cyflenwi Busnes), Iwan Trefor Jones (Cyfarwyddwr Arweiniol y Bwrdd) a Dafydd L. Edwards (Swyddog Adran 151).

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

**3. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi.

**4. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 26 Gorffennaf, 2019 fel rhai cywir.

**5. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD cau'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraff 12, Rhan 4, Atodiad 12A, Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae'r paragraff yma'n berthnasol oherwydd bod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth am unigolion penodol sydd â hawl i breifatrwydd. Nid oes unrhyw fudd cyhoeddus sydd yn galw am ddatgelu gwybodaeth bersonol am yr unigolion yma fyddai'n gorbwyso hawliau'r unigolion yma. O ganlyniad, mae'r budd cyhoeddus yn disgyn o blaid cadw'r wybodaeth yn eithriedig.**

**6. PENODI CYFARWYDDWR RHAGLEN**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Eurig Williams (Rheolwr Gwasanaethau Ymgynghorol Adnoddau Dynol y Corff Atebol).

**PENDERFYNWYD i gynnig y swydd i AW, a dirprwyo'r hawl i gytuno ar bwynt cychwyn o fewn y raddfa gyflog i Brif Weithredwr y Corff Atebol a Phrif Weithredwr Cyngor Sir y Fflint.**

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Gweithredu i benodi Cyfarwyddwr Rhaglen ar gyfer y Cynllun Twf.

Dechreuodd y cyfarfod am 9.00 y.b. a daeth i ben am 4.20 y.h.

**CADEIRYDD**